# P-04-387 Arwyddion a System Ddraenio ar yr A467

**Geiriad y ddeiseb:**

Ddydd Sadwrn, 18 Chwefror 2012, collodd gŵr a thad cariadus ei fywyd ar yr A467 mewn damwain car angheuol – damwain a allai fod wedi'i hosgoi, yn ein barn ni, petai gan y ffordd system ddraenio ddigonol. Byddai system o'r fath wedi sicrhau na fyddai modd i'r holl ddŵr wyneb gasglu ar y ffordd ac achosi i'r cerbyd sglefrio ar y dŵr. Nid oes arwyddion parhaol ar y ffordd ar hyn o bryd sy'n rhybuddio bod perygl o lifogydd arni.

Mae hon yn ffordd ddeuol brysur yng Nghymru a dylid bod ganddi system ddraenio briodol i ymdopi â'r amodau tywydd hyn er mwyn sicrhau diogelwch ar gyfer yr holl fodurwyr sy'n teithio arni.

Rydym yn deisebu i alw am newid y system ddraenio ar hyd y rhan hon o'r ffordd er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto ac nad oes yn rhaid i deulu arall ddioddef yn yr un modd. Mae angen codi arwyddion gwell er mwyn rhybuddio modurwyr o'r peryglon. Erfyniwn arnoch i wneud yr ymdrech i lofnodi'r ddeiseb hon – mae pob llofnod wir yn cyfri.

**Cyflwynwyd y ddeiseb gan:** Stacey Gallagher

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 1 Mai 2012

**Nifer y llofnodion:** 362